

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cynnwys

Rhan 1: Cyflwyniadau	2
Rhagair gan y Cadeirydd dros dro, Llinos Roberts	2
Teyrnged i Gareth Pierce, Cadeirydd y Coleg (Ebrill 2020 i Orffennaf 2021)	2
Adroddiad y Prif Weithredwr, Dr Ioan Matthews	3
Rhan 2: Cynnydd tuag at wireddu ein Cynllun Strategol.....	6
Maes 1: Profiad y dysgwr	7
Amcan 1.....	7
Amcan 2.....	12
Maes 2: Darpariaeth	19
Amcan 1.....	19
Amcan 2.....	23
Maes 3: Ymwybyddiaeth Cyflogwyr.....	28

Rhan 1: Cyflwyniadau

Rhagair gan y Cadeirydd dros dro, Llinos Roberts

Pleser yw cyflwyno adroddiad blynyddol y Coleg ar gyfer eleni. Erbyn hyn, mae cyfrifoldebau'r Coleg wedi ehangu i gynnwys y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau, ac mae'r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau o'r gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y sectorau hyn. Wrth i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau, daeth cadarnhad y bydd cynnydd pellach yng nghyllideb y Coleg dros y tair blynedd nesaf a bydd hynny yn galluogi cynnydd pellach yn ymwneud y Coleg gydag addysg a hyfforddiant galwedigaethol. Ar yr un pryd, mae cenhadaeth wreiddiol y Coleg wrth gydweithio gyda'r prifysgolion yn parhau, ac yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyhoeddi Cynllun Academiaidd newydd wrth i'r Coleg symud i'w ail ddegawd.

Er gwaethaf y llwyddiannau hyn, bu'n flwyddyn anodd, ac yn ychwanegol at heriau'r pandemig, collwyd ein cadeirydd, Gareth Pierce, yn frawychus o sydyn. Hoffwn ddiolch i aelodau Bwrdd y Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r swyddogion am sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo er gwaethaf yr heriau hyn, ac edrychwn ymlaen at benodiad Cadeirydd newydd maes o law.

Teyrnged i Gareth Pierce, Cadeirydd y Coleg (Ebrill 2020 i Orffennaf 2021)

Yn dilyn marwolaeth sydyn Gareth Pierce, Cadeirydd y Coleg, ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddwyd bwletin arbennig er cof amdano yn cynnwys teyrngedau gan ffrindiau a chydweithwyr. Mae ein dyled i Gareth yn fawr ac rydym yn parhau i weld eisiau ei arweiniad, ei gyngor doeth a'i gyfeillgarwch.

[Darllen y bwletin er cof am Gareth](#)

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Adroddiad y Prif Weithredwr, Dr Ioan Matthews

Eleni, byddwn yn dathlu degawd ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac, mewn rhai ffyrdd, mae'r Coleg bellach yn dod i oed, ac mewn sefyllfa i gyfrannu'n fwy helaeth at ddatblygiad polisi cyhoeddus yng Nghymru. Pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen lywodraethu ym mis Gorffennaf 2021, rhaglen a ddatblygwyd ymhellach yn dilyn y cytundeb rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru ym mis Tachwedd 2021, daeth yn amlwg y byddai gan y Coleg gyfraniad pwysig i'w wneud i wireddu'r rhaglen honno. Bydd hyn yn cwmpasu ein gwaith yn cefnogi ac yn ehangu'r dewis cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i fyfyrwyr a dysgwyr, ond hefyd ein cyfraniad mwy cyffredinol at gynlluniau i ymgynraedd at y nod o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yr ydym hefyd yn croesawu'r datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, bod bwriad i roi'r Coleg ar sail statudol pan gyflwynir y Bil Addysg Gymraeg yn ddiweddarach yn nhymor y chweched Senedd.

Fodd bynnag, wrth groesawu'r ymrwymiad i ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg, ac i gynyddu'r gyllideb yn sylweddol dros y tair blynedd nesaf, taflwyd cwmwl tywyll dros waith y Coleg yn ystod y flwyddyn yn dilyn marwolaeth sydyn ein Cadeirydd, Gareth Pierce, wrth fynydda yn Eryri. Chwaraeodd Gareth ran allweddol yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno cynigion y Coleg yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd, ac mae'r penderfyniadau polisi sydd wedi dilyn yn deillio i raddau helaeth o'i brofiad mewn bywyd cyhoeddus. Chwith meddwl mai ei gyfraniad cyhoeddus olaf fel Cadeirydd oedd ymuno gyda mi mewn cyfarfod gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg i drafod, yn bennaf, addysg gychwynnol athrawon. Yn yr adroddiad hwn, darperir [dolen i'r bwletin](#) a gyhoeddwyd gan y Coleg yn dilyn marw Gareth. Wrth barhau i deimlo'r bwlch, pleser yw cadarnhau y bydd y Coleg, gyda chydysyniad Lynwen a'r teulu, yn sefydlu gwobr er cof am Gareth i'w lansio yn ddiweddarach eleni.

Wedi degawd o gydweithio gyda'r prifysgolion, pan welwyd ehangu sylweddol ar y ddarpariaeth ac ar niferoedd y staff sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

amserol adolygu'r Cynllun Academaidd er mwyn darganfod ffyrdd o ddenu cynulleidfaoedd newydd i ddilyn darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae nifer o brosiectau peilot ar waith yn barod a bydd y Cynllun newydd, yn dilyn ymgynghori gyda'r prifysgolion a phartneriaid eraill, yn cael ei gyhoeddi o fewn y flwyddyn. Eleni oedd y flwyddyn gyntaf o sicrhau cyllideb ystyrllon ddechrau buddsoddi o ddifri yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau. Mae yna ddarn tymor hir o waith i'w gyflawni er mwyn cefnogi'r sectorau hyn i ddatblygu'r capasiti a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod gan ddysgwyr ledled Cymru fynediad at gyfleoedd hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi'r strategaeth a lansiwyd yn 2019 yn gam pwysig tuag at drawsnewid y sector o ran cyfleoedd cyfrwng Cymraeg o fewn y degawd a mwy nesaf. Yng nghyd-destun ein gwaith gyda'r sectorau addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau byddwn hefyd yn dyfnhau ein perthynas weithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Er gwaethaf yr heriau sy'n parhau yn wyneb y pandemig, mae'r Coleg hefyd yn dechrau cymryd camau i ehangu ei waith ymhellach. Mae'r Coleg yn rhan o'r drafodaeth ar ddatblygu gweithlu addysg ac wedi cyflwyno cynigion ar gyfer ehangu ein gwaith yn cefnogi darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. Mae camau ar waith i gynnig mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr iechyd a gofal, gan gynnwys cefnogi siaradwyr Cymraeg mewn adrannau sydd, hyd yma, heb integreiddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w cynlluniau. Ac yn ystod 2022, byddwn yn datblygu cynllun i gynnal cyswllt gyda myfyrwyr sy'n dewis astudio tu allan i Gymru, gan gynnwys hyrwyddo cyfleoedd iddynt ddechredu ar gyfer astudio pellach neu i ymuno â'r gweithlu. Bydd hwn yn gynllun pwysig gan fod yn agos at hanner y siaradwyr Cymraeg sy'n astudio mewn prifysgol yn gwneud hynny tu hwnt i'r ffin.

Mae'r Coleg bellach wedi dwysáu ein hymrwymiad i amrywiaeth a gwrth-hiliaeth, ac wedi creu rôl newydd o fewn y tîm i arwain ar draws holl waith y Coleg a sicrhau ein bod yn gwneud popeth posibl i ddenu myfyrwyr o bob cefndir i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r agenda sero-net yn flaenoriaeth bwysig arall ac yr ydym yn

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

cydweithio gyda Mudiad Meithrin i adolygu ein holl weithgareddau ac i ddatblygu polisïau newydd cynaliadwy lle bo hynny yn berthnasol.

Yn ystod blwyddyn heriol arall, heb allu cyfarfod yn rheolaidd gyda chydweithwyr, hoffwn ategu fy niolch i staff y Coleg am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad. Yr wyf i ac aelodau'r Bwrdd yn ddyledus iddynt, fel erioed, am eu brwdfrydedd a'u hegni. Erbyn hyn yr wyf wedi cydweithio gyda nifer ohonynt, yn y Coleg a'i ragflaenydd y Ganolfan Addysg Uwch, ers pymtheg mlynedd a mwy ond mae fy niolch i bawb, beth bynnag fo hyd eu gwasanaeth neu eu rolau yn y Coleg, yr un mor wresog. Wrth i waith y Coleg ddatblygu, byddwn yn croesawu aelodau newydd i'r tîm dros y misoedd nesaf gan ddymuno'n dda i eraill sy'n symud ymlaen i heriau newydd.

I gloi, hoffwn ddiolch i aelodau'r Bwrdd, ac yn benodol y Cadeirydd dros dro, Llinos Roberts, ac i gymuned ehangach y Coleg am eu cefnogaeth a'u cyfraniad at y gwaith mewn blwyddyn anodd.

Wrth i'r adroddiad hwn gael ei baratoi daeth y newyddion eithriadol o drist am farwolaeth gynamserol Comisiynydd y Gymraeg, Aled Roberts. Roedd Aled yn hynod o gefnogol i waith y Coleg tra oedd yn aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol a bu'n bleser cydweithio gydag ef yn fwy diweddar yn ei waith fel Comisiynydd y Gymraeg. Bydd colled mawr ar ei ôl ac estynnwn ein cydymdeimladau llwyr i Llinos a'r teulu.

Rhan 2: Cynnydd tuag at wireddu ein Cynllun Strategol

Lansiwyd [Cynllun Strategol](#) y Coleg ym mis Chwefror 2020. Mae'r Cynllun yn amlinellu gweledigaeth a gwerthoedd y Coleg ar gyfer y cyfnod hyd at 2025 ac yn amlinellu'r blaenoriaethau strategol er mwyn cyflawni'r weledigaeth.

Gwylwch [ffilm fer](#) yn cyflwyno'r Cynllun Strategol.

Ein rôl fel corff cynllunio strategol cenedlaethol yw cefnogi a dylanwadu ar bartneriaid drwy'r adnoddau sy'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo addysg ôl-statudol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos y cynnydd a wnaed gan y Coleg a'i bartneriaid, yn ystod 2020-21, tuag at wireddu amcanion y Cynllun ar draws tri maes:

- Maes 1: Profiad y dysgwr
- Maes 2: Darpariaeth
- Maes 3: Ymwybyddiaeth cyflogwyr o bwysigrwydd sgiliau dwyieithog

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Maes 1: Profiad y dysgwr

Amcan 1

Nod y Coleg yw cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau cynnydd yn nifer y myfyrwyr a/neu'r canrannau sy'n elwa ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog ar draws y sector ôl-orfodol.

Addysg Uwch

Adroddiad data addysg uwch

Bu'r blynyddoedd diwethaf yn rhai digon cymysglyd i brifysgolion Cymru – cyfnod anwadal o lanw a thrai a llanw eto yn niferoedd y myfyrwyr oedd yn dewis astudio yng Nghymru, a chyfnod o heriau ariannol yn arwain at ail-strwythuro a thoriadau. Yn anffodus, er gweld cynnydd sylweddol ym mlynyddoedd cyntaf y Coleg, sefydlogi a llithro'n ôl ychydig bach y mae niferoedd y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn hyn.

Mae niferoedd y myfyrwyr llawn-amser sy'n astudio rhywfaint o'u cynllun gradd israddedig yn y Gymraeg yn dal eu tir ar y cyfan, ac yn parhau cryn dipyn yn uwch nag oeddent yn 2011 pan sefydlwyd y Coleg. Felly hefyd niferoedd y myfyrwyr ôl-raddedig llawn-amser, er bod y gostyngiad rhwng 2018/19 a 2019/20 yn mynd yn erbyn y tueddiad diweddar o gynnydd cymedrol ond cyson. Fodd bynnag, mae niferoedd y myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio rhywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg wedi disgyn (israddedig ac ôl-radd), gan adlewyrchu patrwm cyffredin ar draws y sector cyfan dros y degawd diwethaf.

Pan gyhoeddir data 2020/21, mae'n debygol y bydd effeithiau'r pandemig byd-eang i'w gweld ar y niferoedd cyfrwng Cymraeg hefyd. Er cyflwyno mesurau brys i addysgu myfyrwyr ar-lein a thrwy ddulliau cyfunol, roedd y diffyg cyswllt 'mewn person' yn cyfyngu ar allu staff i annog myfyrwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Yn y cyfamser, mae'r Coleg wedi dechrau ymgynghori ar flaenoriaethau ei Gynllun Academaidd Addysg Uwch newydd, a bydd hwnnw'n cynnwys nifer o gynlluniau a strategaethau cyffrous ar gyfer ehangu cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr a denu cynulleidfaoedd newydd.

Tabl 1: Myfyrwyr pob prifysgol sy'n astudio "rhywfaint" yn y Gymraeg, yn ôl lefel a dull astudio, 2010/11 – 2019/20

Dull astudio	2011/ 12	2012/ 13	2013/ 14	2014/ 15	2015/ 16	2016/ 17	2017/ 18	2018/ 19	2019/ 20
Llawn amser Israddedig	2,705	3,380	3,590	3,465	4,610	4,350	4,570	4,505	4,375
Llawn amser Ôl-radd	365	475	510	575	740	810	705	740	500
Rhan amser Israddedig	1,500	1,415	855	1,430	1,960	880	900	885	885
Rhan amser Ôl-radd	130	195	220	890	395	745	230	140	155
	4,700	5,465	5,175	6,360	7,705	6,785	6,405	6,270	5,915

Ffynhonnell data: Bwletin Ystadegol 'Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2019/20' (29 Gorffennaf 2020)

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygrych)

Astudiaeth achos 1: Ymestyn yr Ysgoloriaeth Cymhelliant

Mewn ymateb i'r heriau a wynebwyd wrth ddenu myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn sgil pandemig Covid-19, cafodd Cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg ei ymestyn yn 2020/21. Dyfarnwyd dros 500 o Ysgoloriaethau Cymhelliant i fyfyrwyr oedd wedi ymrwmo i astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg mewn unrhyw faes pwnc. Dyma'r nifer uchaf erioed o fyfyrwyr i gael Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg.

Mae Mikey Denman yn astudio Nyrsio ym Mhrifysgol Abertawe ac wedi cael Ysgoloriaeth Cymhelliant gan y Coleg Cymraeg.

Meddai Mikey, "Mae ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg wedi fy helpu'n fawr. Un elfen yw fy mod wedi gallu parhau â'm hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg sydd wedi gwneud fy mhrofiad yn y brifysgol gymaint yn well. O safbwynt ariannol, mae'r Ysgoloriaeth Cymhelliant yn £500 y flwyddyn dros gyfnod fy ngradd, sydd wedi fy helpu'n sylweddol i leihau'r baich hwnnw."

Astudiaeth achos 2: Emily Pemberton, Prifysgol Caerdydd

Mae Emily Pemberton yn un o'r myfyrwyr disglair sy'n astudio cyfran o'u cwrs Athroniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Cafodd Emily ei magu ar aelwyd Saesneg yn ardal Grangetown ac astudiodd yn Ysgol Gyfun Plasmawr cyn dechrau ei chwrs ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Emily hefyd wedi cael profiad yn ddiweddar o gyfrannu at greu uned newydd sbon ar fywyd a gwaith yr athronydd gwleidyddol Frantz Fanon ar y cyd â'i darlithydd Dr Huw L. Williams fel rhan o brosiect [Deunyddiau Dysgu Digidol](#) a ariannwyd gan Gronfa Adfer a Buddsoddi Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Bydd y deunyddiau hyn yn cael eu rhyddhau yn ystod blwyddyn academiaidd 2021/22.

Meddai Emily, "Dros y blynyddoedd diwethaf mae wedi bod yn ffrainc cael gweithio tu fewn i gylchoedd Cymraeg wrth adeiladu perthnasau efo unigolion a ffrindiau newydd o gyrsiau gradd gwahanol. Mae'r profiad wedi fy ngalluogi i i ddatblygu fy

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

sgiliau iaith ar lefel academiaidd, fy hyder fel siaradwr Cymraeg, ac efallai'n bwysicach wedi sicrhau 'mod i'n mwynhau'r iaith ac yn ei defnyddio'n amlach yn gyffredinol. Yn ogystal, mae'n bwysig normaleiddio defnydd yr iaith ar bob lefel i fi yn bersonol, oherwydd fel cymaint o bobl eraill ar draws y wlad, cai'r iaith ei gweld gen i fel 'iaith yr ysgol' efallai – ac er fy mod i'n parhau i'w defnyddio yn y brifysgol, gwelaf yr iaith fel rhywbeth llawer mwy eang a bywiog erbyn hyn.

“Rydw i'n astudio, ac felly yn byw drwy'r Gymraeg. Mae gweithio ar rai deunyddiau ar gyfer y Coleg wedi bod yn brofiad cadarnhaol o ran myfyrio ar sgiliau sydd gen i a gwneud ymdrech i grynhoi rhannau o fy ngwybodaeth, sydd i'r gwrthwyneb o'r hyn mae myfyrwyr yn dueddol o wneud wrth ffurfio dadleuon a thraethodau sy'n filoedd o eiriau o hyd. Mae'r holl elfennau gwahanol o bopeth rydw i wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf drwy'r Gymraeg yn dangos ein bod ni'n byw mewn gwlad amlieithog, a dw i'n gobeithio gwelwn ni fwy o fyfyrwyr yn dewis astudio drwy'r Gymraeg.”

Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Adroddiad data addysg bellach a phrentisiaethau

Rydym yn parhau i gefnogi pob sefydliad Addysg Bellach i ddatblygu eu darpariaeth ym meysydd blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Mae'r gwaith hwnnw yn canolbwyntio ar hyn o bryd mewn rhai pynciau mewn rhai colegau, ac felly bydd effaith y buddsoddiad hwn ar y ffigyrau cenedlaethol i'w gweld yn y tymor canolig.

Mae Bwletin Ystadegol Addysg Bellach a Phrentisiaethau'r Llywodraeth erbyn hyn yn adrodd ar ffurf gyson ar weithgareddau dysgu cyfrwng Cymraeg, ac fe welir rhywfaint o gynnydd yn y sector addysg bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Tabl 2: Gweithgareddau dysgu gyda o leiaf elfen Cymraeg

Blwyddyn	Addysg bellach	Dysgu yn y gweithle
2017/18	7.3%	10.3%
2018/19	8.7%	11.9%
2019/20	8.8%	13.0%

Ffynhonnell data: [Adroddiad data cyfredol LLWR](#) (tud. 17)

Astudiaeth achos: Ifan Phillips yn cipio Gwobr Addysg Bellach a Phrentisiaethau William Salesbury

Cyflwynwyd Gwobrau Blynyddol y Coleg i rai o'r dysgwyr a'r myfyrwyr Cymraeg mwyaf ymroddedig ac i ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol tuag at addysg ôl-orfodol cyfrwng Cymraeg yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21.

Un o'r gwobrau hynny oedd Gwobr Addysg Bellach a Phrentisiaethau William Salesbury, sy'n cydnabod cyfraniad dysgwr neu brentis i'r bywyd a'r diwylliant Cymraeg o fewn coleg addysg bellach neu ddarparwr prentisiaeth.

Enillydd y wobr yn ystod 2020-21 oedd Ifan Phillips, Prentis mewn Gosodiadau Trydanol, Coleg Sir Benfro, am ei gyfraniad tuag at hyrwyddo prentisiaethau Cymraeg a dwyieithog yn y Coleg. Meddai Ifan:

“Braint ac anrhydedd oedd derbyn y wobr hon yn gywir fel wedd hi'n fraint ac yn anrhydedd dod yn llysgennad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Choleg Sir Benfro. Mae'r cymorth a'r cymhelliant rwyf wedi'i gael gan y Coleg Cymraeg, Coleg Sir Benfro a fy nheulu wedi bod yn amhrisiadwy i'm helpu i gwblhau fy mhrentisiaeth

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

lefel dau ac rwy'n siŵr y bydd yn help enfawr imi wrth gwblhau fy mhrentisiaeth lefel tri yn y dyfodol agos.”

Derbyniodd Ifan dlws a gwobr ariannol o £200.

[Gellir gwyllo'r seremoni wobrwyo yn ôl fan hyn.](#)

Amcan 2

Nod y Coleg yw gweithio gyda phartneriaid i sicrhau darpariaeth Gymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel

Addysg Uwch

Adroddiad data addysg uwch

Mae data swyddogol y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) yn dangos sut mae profiad myfyrwyr sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn cymharu â myfyrwyr eraill. Mae'r data'n dangos, yn nhyb y myfyrwyr Cymraeg a dwyieithog, bod eu profiadau addysgiadol yn fwy ffafriol na myfyrwyr eraill. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael swydd / astudio ymhellach ar ôl graddio, a bod y swydd honno'n swydd ar lefel raddedig.

Tabl 3: Data diweddaraf y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) ar brofiad myfyrwyr fesul cyfrwng

	Cyfrwng addysgu	
	Saesneg	Cymraeg
Hapus gyda safon addysgu ar y cwrs	86	89
Hapus gyda safon yr asesu ac adborth	73	77

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Hapus gyda'r gefnogaeth academiaidd	82	86
Y ganran sydd mewn cyflogaeth neu'n astudio ymhellach ar ôl graddio	93	97
Y ganran sydd mewn cyflogaeth uwch neu'n astudio ymhellach ar ôl graddio	67	73

Ffynhonnell data: Data Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ar gyfer Prifysgolion Cymru (2017, 2018, 2019). Mae'r OfS (Office for Students) yn anelu i gyhoeddi'r data nesaf yn 2023.

[Astudiaeth achos 1: Ysgoloriaethau Ymchwil ac Ymchwil Cymru yn rhagori](#)

Yn ôl [adroddiad](#) a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021 mae sector ymchwil Cymru yn 'rhagori ar ei faint' gan gyfrif am '4% o holl gyhoeddiadau'r DU a 0.3% o gynnyrch ysgolheigaidd byd-eang'. Mae Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg yn cyfrannu at ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr yn flynyddol ac mae Bedwyr ab Ion yn un o'r myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer PhD ym maes Cemeg Feddyginiaethol dan nawdd y Coleg ar hyn o bryd. Cyfrannodd Bedwyr at sesiwn bosteri [Cynhadledd Wyddonol](#) y Coleg ym mis Mehefin 2021 hefyd.

Graddiodd Bedwyr o Brifysgol Rhydychen yn 2019 gyda gradd meistr mewn Cemeg (MChem), cyn dychwelyd i'w fro enedigol i barhau gyda'i astudiaethau. Mae nawr yn astudio ar gyfer doethuriaeth ac yn rhan o Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau Prifysgol Caerdydd. Nod ei ymchwil yw datblygu therapïau ar gyfer clefydau niwroddirwyiol (prion) drwy ddefnyddio Cemeg Feddyginiaethol. Mae Bedwyr yn gobeithio torri tir newydd yn y Gymraeg gyda'i ymchwil ac er mwyn gallu cyrraedd y nod uchelgeisiol hwn, rhaid defnyddio nifer o ddisgyblaethau gwyddonol gwahanol, megis cemeg synthetig a chyfrifiadurol, biocemeg a bioleg.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Astudiaeth achos 2: Enillwyr Gwobrau Darlithwyr Cysylltiol 2021

Derbyniwyd lluo o enwebiadau ar gyfer Gwobrau'r Darlithwyr Cysylltiol yn 2021, ac roedd safon yr enwebiadau yn rhagorol unwaith eto eleni. Dyfarnwyd Gwobr y Myfyrwyr, oedd yn cynnig cyfle i fyfyrwyr enwebu darlithydd sydd wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'w bywydau yn y brifysgol, i Geraint Forster, Uwch-ddarlithydd Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer Corff, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, am yr effaith gadarnhaol mae ei waith yn ei chael ar brofiad myfyrwyr yn yr adran.

Wrth dderbyn y wobr, meddai Geraint Forster:

“Mae'n ffrainc derbyn y wobr hon. Profiad y myfyrwyr yw'r rhan bwysicaf o fy rôl fel addysgwyr ac mae derbyn cydnabyddiaeth wrth y myfyrwyr yn werthfawr tu hwnt. Diolch yn fawr i'r myfyrwyr sydd wedi fy enwebu a diolch i'r Coleg Cymraeg am y wobr.”

Dyfernir y Wobr Cyfraniad Eithriadol i addysg cyfrwng Cymraeg i unigolyn sy'n haeddu cael ei anrhydeddu am ei gyfraniad eithriadol i addysg uwch tu hwnt i'w rôl broffesiynol. Enillydd y wobr hon eleni oedd Dr Lowri Cunnington Wynn, Darlithydd Troseddeg, Prifysgol Aberystwyth, am weithio'n ddiflino i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn Adran y Gyfraith a Throseddeg, denu myfyrwyr i astudio'r pwnc drwy'r Gymraeg, annog myfyrwyr presennol i ddewis modiwlau cyfrwng Cymraeg a gwella'r adnoddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

Wrth dderbyn y wobr, meddai Dr Lowri Cunnington Wynn:

“Mae hi'n ffrainc o'r mwyaf derbyn gwobr fel hon. Mae dysgu Troseddeg fel pwnc yn bwysig iawn i mi ond mae cael dysgu pwnc mor unigryw â hwn yn Gymraeg yn bwysicach na dim. Nid yw'r un darlithydd yn disgwyl diolch am y gwaith maen nhw'n ei wneud, ond rydw i'n ddiolchgar iawn am y wobr yma.”

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Astudiaeth achos 3: Creu adnoddau o ansawdd

Geiriadur Cymraeg-Ffrangeg / Ffrangeg-Cymraeg newydd

Datgarboneiddio ('se décarboniser'), hunlun ('selfie' neu 'égoportrait') a Covid hir ('Covid long') – rhai o'r geiriau cyfoes sydd wedi'u cynnwys mewn [geiriadur Cymraeg-Ffrangeg / Ffrangeg-Cymraeg](#) newydd.

Fe wnaeth y Coleg gomisiynu'r geiriadur mewn ymateb i alw clir gan ddarlithwyr a myfyrwyr leithoedd Modern. Mae'n addas ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio tuag at radd yn y pwnc, yn ogystal â myfyrwyr Safon Uwch a gweithwyr proffesiynol, ac fel mwyafrif llethol adnoddau'r Coleg, mae ar gael yn rhad ac am ddim ar y we. Cafodd ei seilio ar eiriadur a gyhoeddwyd gan CAA yn 2001, gyda miloedd o eiriau newydd wedi'u hychwanegu.

Meddai Bethan Lovibond o Brifysgol Bangor: “Fel myfyriwr sy'n astudio Ffrangeg drwy'r Gymraeg, mae'r geiriadur wedi fy helpu i i allu cyfieithu o'r ddwy iaith yn haws, ac mae'n gyflymach na defnyddio geiriadur Saesneg hefyd.”

E-lyfr Cyflwyniad i Farchnata

[Cyflwyniad i Farchnata](#) yw'r gwrslyfr Cymraeg cyntaf erioed ym maes marchnata. Mae wedi ei anelu at fyfyrwyr sy'n astudio Busnes, Rheolaeth, Cyfathrebu a Marchnata, ac mae o ddefnydd ymarferol i fusnesau ac ymarferwyr cyfathrebu a marchnata mewn sefydliadau gwirfoddol a chyhoeddus. Mae'n e-lyfr sy'n cynnwys nifer o elfennau rhyngweithiol ac aml-gyffwrdd.

Dywedodd Llŷr Roberts, golygydd yr e-lyfr ac Uwch-ddarlithydd Busnes a Marchnata ym Mhrifysgol De Cymru: “Bwriad y llyfr yw rhoi trosolwg o rôl marchnata o fewn busnes a'r gymdeithas ac egluro sut i fynd ati i farchnata rhywbeth yn y byd go-iawn. Ceir pwyslais trwyddo ar gyflogadwyedd, cynaliadwyedd a marchnata digidol, ac mae'n cynnwys nifer o astudiaethau achos o gwmnïau a sefydliadau Cymreig.”

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Ychwanegodd llefarydd ar ran y Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM), y prif gorff proffesiynol ar gyfer y proffesiwn marchnata: “Rydym yn croesawu cyhoeddi'r e-lyfr arloesol a chynhwysfawr hwn. Bydd yn werthfawr o ran cefnogi dysgu myfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn agor drysau ar gyfer gyrfaoedd proffesiynol.”

Troi'r Trai mewn Tri Deg Mlynedd

Gwahoddodd y Coleg geisiadau o Gronfa'r Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithgareddau ac adnoddau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch. Comisiynwyd Rhagoriaith ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i greu'r adnodd ar-lein, *Troi'r Trai mewn Tri Deg Mlynedd* a lwyfannir ar y [Porth Adnoddau](#). Mae'r modiwl rhagweithiol yn atyniadol ac yn cynnig cipolwg ar le a phwysigrwydd y Gymraeg yn y Gymru gyfoes.

Gellir ei ddefnyddio mewn sawl cyd-destun ac yn draws-ddisgyblaethol, a'r brif neges drwyddi draw yw'r angen am weithlu sydd â sgiliau da yn y Gymraeg. Mae ystyriaeth benodol felly i'r manteision o barhau i astudio'r Gymraeg ar ôl TGAU. Mae sylw i sawl sector sy'n rhan o fywyd cyhoeddus yng Nghymru, ac yn benodol i rôl y Gymraeg ym maes addysg.

Mae'r agweddau rhyngweithiol yn ffordd hwylus o gofio cyd-destun a ffeithiau ac mae'r adnodd yn apelio at sawl carfan – o ddisgyblion ac athrawon i fyfyrwyr, darlithwyr a chynulleidfa ehangach.

Mae'n codi cwestiynau pwysig am y cyfraniad y gall pawb ei wneud i gyrraedd nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr ymhen 30 mlynedd.

Enillodd *Troi'r Trai mewn Tri Deg Mlynedd* wobr yr Adnodd Cyfrwng Cymraeg yng ngwobrau Darlithwyr Cysylltiol y Coleg yn 2021.

[Addysg Bellach a Phrentisiaethau](#)

[Adroddiad data addysg bellach a phrentisiaethau](#)

Mae sicrhau darpariaeth Gymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel yn flaenoriaeth i'r Coleg. Dros y blynyddoedd nesaf, wrth i Estyn ail-gydio yn y gwaith o arolygu'r

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

colegau addysg bellach, bydd modd datblygu ymhellach ein dealltwriaeth o ansawdd y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog a gynigir gan y colegau gyda chefnogaeth y Coleg.

Yn y cyfamser, yn ystod 2020-21, cynhaliwyd arolwg gan y Llywodraeth o effaith Covid-19 ar ddysgwyr 16 oed a hŷn mewn colegau addysg bellach, dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion a'r rheiny oedd yn dysgu yn y gwaith. O'r rheiny oedd yn siarad Cymraeg, dengys yr arolwg bod mwyafrif y dysgwyr oedd wedi ymateb (79%) wedi parhau i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog fel arfer ac roeddent yn fodlon ag argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg (77%). Mae'n amlwg fod heriau yn parhau o ran sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddysgwyr fynychu gweithgareddau cymdeithasol (gan gynnwys ar-lein) i siarad Cymraeg â dysgwyr eraill y tu allan i'r cwrs (roedd 31% yn anghytuno eu bod wedi cael cyfleoedd o'r fath).

Mae'r Coleg hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau'r profiad gorau i ddysgwyr sy'n astudio'n ddwyieithog drwy ddatblygu adnoddau digidol atyniadol ar draws ystod o bynciau blaenoriaeth.

Ffynhonnell data: [Arolwg effaith Covid-19 ar ddysgwyr \(2020\)](#)

Astudiaeth achos: [Dros 150 o adnoddau Cymraeg a dwyieithog newydd i gefnogi'r sector ôl-16](#)

Cyhoeddwyd 150 o adnoddau ar y Porth Adnoddau, gwefan adnoddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, er mwyn cefnogi darlithwyr ac ymarferwyr mewn colegau addysg bellach a hyfforddwyr ym maes prentisiaethau. Bydd yr adnoddau yn cefnogi'r addysgwyr i gynnig darpariaeth Gymraeg a dwyieithog i bob dysgwr a phrentis beth bynnag eu sgiliau Cymraeg yn unol ag amcanion [Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg](#) Llywodraeth Cymru.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Bu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn arwain y prosiect cenedlaethol i greu a diweddarau dros 150 o adnoddau digidol Cymraeg a dwyieithog ar draws pedwar pwnc blaenoriaeth, sef Iechyd a Gofal, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus ac Amaeth. Ariannwyd y prosiect yn dilyn grant gwerth £150,000 gan Lywodraeth Cymru.

Mae Joanne DeBurgh, Darlithydd Gofal Plant yn Ngholeg Penybont, yn defnyddio'r adnoddau gyda'i dysgwyr:

“Mae pob adnodd wedi bod yn ddefnyddiol. Rydyn ni angen adnoddau dwyieithog gan nad oes gennym ni lawer o fyfyrwyr sy'n dod o ysgolion neu deuluoedd Cymraeg.”

Mae sicrhau bod adnoddau addas ar gael i ymarferwyr, darlithwyr a hyfforddwyr yn allweddol i wireddu amcanion cynllun gweithredu addysg bellach a phrentisiaethau Llywodraeth Cymru, yn enwedig o gofio mai canran gymharol isel o'r gweithlu sy'n ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Maes 2: Darpariaeth

Amcan 1

Drwy gydweithio gyda phartneriaid, nod y Coleg yw sicrhau bod darpariaeth Gymraeg a/neu ddwyieithog ar gael mewn cynifer o feysydd â phosibl ar gyfer addysg uwch, ac ar gael yn y meysydd a adnabuwyd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer addysg bellach a phrentisiaethau

Addysg Uwch

Adroddiad data addysg uwch

Profwyd cynnydd sylweddol yn nifer y pynciau y mae modd eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg ers sefydlu'r Coleg. Ceir rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg ym mhob un o'r 36 'prif grŵp pwnc' erbyn hyn, o gymharu â 12 yn 2011.

O fewn y 36 'prif grŵp pwnc', ceir 80 pwnc academaidd. Erbyn hyn, mae modd astudio o leiaf 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg mewn o leiaf un sefydliad yn 74 o'r pynciau hyn, ac o leiaf 40 credyd yn 59 ohonynt. Y pwnc diweddaraf sydd wedi dechrau darparu trwy gyfrwng y Gymraeg yw Milfeddygaeth (Prifysgol Aberystwyth).

Astudiaeth achos 1: Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Bangor

Mae'r Coleg yn parhau i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg mewn pynciau a lleoliadau newydd. Un o'r meysydd sydd wedi manteisio ar fuddsoddiad drwy gynllun Grantiau Sbarduno'r Coleg yw Bydwreigiaeth ym Mhrifysgol Bangor. Dyma oedd gan Siwan Humphreys, Darlithydd Bydwreigiaeth Cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd Prifysgol Bangor i'w ddweud am y datblygiadau:

“Yn sgil y Grant Sbarduno a dderbyniodd yr adran Fydwreigiaeth ym Mangor y llynedd, mae'r myfyrwyr ar y rhaglen israddedig wedi gallu manteisio ar y cyfle i ymgeisio am yr ysgoloriaeth cymhelliant a chyflawni o leiaf 40% o'u gwaith trwy

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

gyfrwng y Gymraeg. Bellach mae'r holl sesiynau ymarferol a sesiynau sgiliau clinigol yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â nifer helaeth o'r darlithoedd damcaniaethol ar-lein. Trwy gefnogaeth a buddsoddiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Grant Sbarduno, mae'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ar y rhaglen yn gallu cyflawni holl elfennau'r cwrs yn eu dewis iaith, sydd wedi bod yn ddatblygiad hollbwysig o fewn y rhaglen. Rydym wedi gallu darparu addysg a chefnogaeth ymarferol ac academaidd gan sicrhau ar yr un pryd bod anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn cael eu gwireddu. Mae wedi ein galluogi fel tîm yma ym Mangor i optimeiddio'r awyrgylch dysgu trwy annog, hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg gan sicrhau fod dewisiadau pob myfyriwr yn cael eu cefnogi. Yn sgil y datblygiadau a'r cynlluniau gweithredu gan y Coleg Cymraeg, bydd ein myfyrwyr yn hyfforddi i fod yn fydwragedd cymwys a hyderus eu hiaith a fydd yn cryfhau a chyfoethogi ansawdd y gofal mae merched a theuluoedd Cymraeg eu hiaith yn eu derbyn o fewn ein gwasanaeth iechyd. Edrychwn ymlaen i ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ein rhaglen ddiwygiedig sydd newydd ei chymeradwyo gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gyfer mis Medi 2022. Byddwn yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith yn cael lle blaenllaw ar y rhaglen ac y bydd y diwylliant dysgu yn creu cyfleoedd a fydd yn grymuso ac yn galluogi myfyrwyr Cymraeg i ddatblygu eu haddysg a'u sgiliau clinigol."

[Astudiaeth achos 2: Dr Eirini Sanoudaki yn elwa o gynllun Cymraeg Gwaith](#)

[Addysg Uwch](#)

Mae Dr Eirini Sanoudaki, sy'n Uwch-ddarlithydd mewn Ieithyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor, yn ysbrydoli pawb sy'n dod ar ei thraws trwy ei gwaith neu drwy ddysgu Cymraeg, gyda'i hagwedd bositif, ei hawydd i helpu eraill, a'i brwdfrydedd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Bu'n aelod o'r cynllun Cymraeg Gwaith ers y dechrau yn 2017. Mae hi bellach yn defnyddio Cymraeg bob dydd gyda chydweithwyr ac yn cynnal sesiynau addysgu gyda myfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Enillodd Eirini Dystysgrif Cymraeg Gwaith Lefel 7 gyda rhagoriaeth eleni yn ogystal ag un o wobrau cenedlaethol Cymraeg Gwaith am y defnydd gorau o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae hi'n defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd gwbl naturiol gyda myfyrwyr. Maen nhw'n ymateb yn Gymraeg yn fwy nag oedden nhw ac mae'r Ysgol Ieithoedd Modern wedi derbyn adborth o 100% bodlonrwydd gan fyfyrwyr am y darlithoedd dwyieithog mae hi'n eu cynnal.

Mae Eirini yn gwneud ymchwil ar blant dwyieithog ag anableddau. Mae hi wedi ennill nifer o grantiau ymchwil, ac mae'n goruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig cyfrwng Cymraeg.

Derbyniodd sawl gwahoddiad i siarad gyda chymdeithasau Cymraeg am ei phrofiad wrth ddysgu a defnyddio'r iaith. Mae hi hefyd wedi ymddangos ar y cyfryngau torfol, ar Radio Cymru ac mewn erthygl yn *Golwg*.

Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Adroddiad data addysg bellach a phrentisiaethau

Dyrannwyd £250,000 i golegau addysg bellach i gynyddu darpariaeth Gymraeg a dwyieithog. Dyfarnwyd grantiau datblygu i 11 coleg fel a ganlyn:

Tabl 4: Grantiau Datblygu

Maes pwnc	Sefydliad
Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal Plant	Coleg Gwent
Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Gŵyr Abertawe
Gwasanaethau Cyhoeddus a Iechyd a Gofal	Coleg Merthyr
Gofal Plant	Coleg Penybont
Gofal Plant	Coleg y Cymoedd
Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Caerdydd a'r Fro
Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Sir Gâr / Coleg Ceredigion

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Iechyd a Gofal	Grŵp Llandrillo Menai
Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Sir Benfro
Gwasanaethau Cyhoeddus	Coleg Cambria
Gwasanaethau Cyhoeddus	Grŵp Colegau NPTC

Ffynhonnell data: Data grantiau datblygu 2021

Astudiaeth achos 1: Rhiannon Stundon, Darlithydd Gwyddor Anifeiliaid, Coleg Gwent

Daw Rhiannon o Bont-y-pŵl yn wreiddiol. Dywed bod diddordeb a balchder yn y Gymraeg wedi tyfu ers Eisteddfod Genedlaethol y Fenni yn 2016. Dechreuodd Rhiannon ar lefel Sylfaen 1 Cymraeg Gwaith ar ddiwedd 2018 ac erbyn hyn, mae hi wedi cyrraedd lefel Uwch 1.

Mae hi'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd yn ei gwaith, nid yn unig wrth gyflwyno elfennau o Gymraeg yn y ddarpariaeth ond hefyd wrth ymdrin ag e-bost a gyda chydweithwyr. Ers i Rhiannon ddechrau, mae hi wedi dwyn perswâd ar dri darlithydd arall yn yr adran i ddysgu Cymraeg. Yn 2020, enillodd categori Dysgwr y Flwyddyn yng Ngwobrau Dathlu Rhagoriaeth Coleg Gwent a dywed bod y coleg yn gweithio'n galed i hybu a chefnogi dwyieithrwydd.

Mae Rhiannon a'i phartner yn magu eu plant, sy'n ddisgyblion yn Ysgol Gymraeg y Fenni, yn ddwyieithog. Mae hi'n cael llawer o gyfle felly i ddatblygu geirfa y tu allan i'r gwersi Cymraeg. Mae defnyddio'r Gymraeg mewn ardal mor agos i'r ffin yn bwysig tu hwnt ac mae Rhiannon yn falch o hyrwyddo'r Gymraeg bob cyfle posib.

Astudiaeth achos 2: Naomi Watkeys, Coleg Castell Nedd Port Talbot

Mae Naomi Watkeys, sydd wedi'i phenodi fel Darlithydd Sgiliau Cyflogadwyedd Cymraeg Gofal yng ngrŵp Colegau NPTC yn prysur ddatblygu rôl y Gymraeg drwy'r Ysgol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant o ganlyniad i gefnogaeth grant datblygu gan y Coleg.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Mae Naomi yn addysgu'r cwrs gofal plant gan roi pwyslais ar ddysgu dwyieithog. Mae hefyd yn cefnogi datblygiad sgiliau dwyieithrwydd y grwpiau iechyd a gofal cymdeithasol.

Cyfeiria Naomi at yr angen i “datblygu gallu'r staff a'r dysgwyr fel ei gilydd i baratoi ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ar leoliad ac yn y gweithle yn ystod ac ar ôl cwblhau cyrsiau.”

“Rwy'n awyddus iawn i ddatblygu mwy o rôl weithredol yn y lleoliadau gwaith yn y dyfodol gan roi'r opsiynau i fyfyrwyr wneud eu harsylwadau a'u hasesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Byddaf hefyd yn gweithio ochr yn ochr â'r staff eraill yn yr ysgol i ddatblygu'r deunydd Cymraeg gan gynnwys arddangosfeydd a phosteri yn yr ystafelloedd dosbarth, y nod yw sicrhau bod pob myfyrwr yn cael cyfle i weld gwybodaeth sy'n ymwneud â'u cwrs yn ddwyieithog.”

Yn sgil penodi Naomi, mae'r Coleg bellach yn cynllunio i gyflwyno'r cwrs Gofal plant yn Gymraeg.

Amcan 2

Drwy gydweithio gyda phartneriaid, nod y Coleg yw sicrhau bod y nifer angenrheidiol o staff ar gael i gynnal darpariaeth cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog

Addysg Uwch

Adroddiad data addysg uwch

Mae niferoedd staff yn y prifysgolion sy'n addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i aros yn weddol sefydlog o gwmpas 600 o unigolion ar draws y sector. Mae llawer o'r staff hyn yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Grantiau Pynciol a Grantiau Sbarduno'r Coleg. Bydd Cynllun Academaidd newydd y Coleg yn anelu i gyllido rhagor o swyddi darlithio mewn ymdrech i gyrraedd rhagor o fyfyrwyr nad ydynt ar hyn o bryd yn cael cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Mae'r cynllun Darlithwyr Cysylltiol hefyd yn mynd o nerth i nerth ers ei lansio yn 2018. Pwrpas y cynllun hwnnw yw creu cymuned gref o ddarlithwyr ac addysgwyr cyfrwng Cymraeg sy'n gweithio ar draws y sector prifysgolion. Erbyn hyn, mae dros 575 o aelodau wedi ymuno â'r cynllun, cynnydd o 240 ar y llynedd.

Tabl 5: Staff sy'n addysgu yn y Gymraeg

	Addysgu yn y Gymraeg
2008/09	455
2009/10	460
2010/11	465
2011/12	510
2012/13	645
2013/14	595
2014/15	630
2015/16	590
2016/17	635
2017/18	635
2018/19	605
2019/20	600

Ffynhonnell data: Bwletin Ystadegol 'Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2019/20' (29 Gorffennaf 2020)

[Astudiaeth achos: Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Bangor](#)

Mae'r Rhaglen MA Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor wedi ei lleoli oddi fewn i'r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd. Mae'n rhaglen ddwy flynedd sy'n croesawu hyd at 21 o fyfyrwyr dwyieithog Cymraeg/Saesneg bob blwyddyn. Mae'r

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

pump aelod staff cyfredol (parhaol ac ategol) sy'n cyflwyno'r rhaglen yn rhugl a hyderus ddwyieithog. Galluoga hyn i'r myfyrwyr gwblhau eu hastudiaethau a'u hasesiadau academaidd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trwy bartneriaeth effeithiol a threfniadau hir-sefydledig gydag Awdurdodau Lleol Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, gwneir ymgais bwrpasol i gydweddu myfyrwyr gydag aseswyr all asesu ymarfer proffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth feddwl am yr unigolion mae gweithwyr cymdeithasol proffesiynol yn gweithio gyda hwy, mae cael y cynnig rhagweithiol yn ei le o ran defnydd y Gymraeg, heb orfod gofyn amdano, yn arbed haen bellach o rwystrau i unigolion sydd eisoes yn fregus. Mae buddsoddiad parhaus y Coleg Cymraeg Cenedlaethol dros gyfnod helaeth o flynyddoedd wedi bod yn allweddol wrth warchod capasiti ieithyddol y ddarpariaeth.

Meddai Gwenan Prysor, Cyfarwyddwr y cwrs MA Gwaith Cymdeithasol:

“Mae cyfraniad rhaglen MA Gwaith Cymdeithasol Prifysgol Bangor i hyfforddiant a datblygiad y genhedlaeth nesaf o weithwyr cymdeithasol proffesiynol dwyieithog yn amhrisiadwy. Drwy ddarparu graddedigion dwyieithog ar gyfer y proffesiwn, galluogir yr awdurdodau lleol, a chyflogwyr eraill gweithwyr cymdeithasol, i ymateb i anghenion ieithyddol y boblogaeth maent yn ei gwasanaethu. Fodd bynnag, oherwydd eu sgiliau dwyieithog gwerthfawr, mae'r myfyrwyr yma yn hynod gyflogadwy y tu hwnt i ogledd orllewin Cymru hefyd, ac yn gallu darparu gwaith cymdeithasol o ansawdd pa le bynnag y byddant yn gweithio.”

Addysg Bellach a Phrentisiaethau

[Adroddiad data addysg bellach a phrentisiaethau](#)

Mae data Cyngor y Gweithlu Addysg yn dangos sefyllfa sefydlog o ran nifer y staff sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau a hynny er gwaethaf y ffaith bod cwmp wedi bod yn y nifer o staff yn gyffredinol sy'n dysgu yn y sector.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

Dengys y data hwn gan Gyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer 2020 a 2021 pa mor allweddol ydy cynyddu'r buddsoddiad yn y sector ôl-16 er mwyn denu a datblygu gweithlu sy'n hyderus i gyflwyno'r Gymraeg i'w dysgwyr a'u prentisiaid. Mae'r angen am gyllideb ychwanegol sylweddol a chynyddol dros y blynyddoedd nesaf er mwyn gweld cynnydd yn unol â'r Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg yn amlwg.

Tabl 6: Staff sy'n siarad ac yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

	2020	2021
Staff sy'n siarad Cymraeg (AB)	1,095	1,083
Staff sy'n siarad Cymraeg (Prentisiaethau)	456	435
Staff sy'n dysgu yn y Gymraeg (AB)	764	771
Staff sy'n dysgu yn y Gymraeg (Prentisiaethau)	314	313

[Ffynhonnell data](#) (tud. 34 AB, tud. 49 DSW)

Astudiaeth achos: Cefnogaeth Sgiliaith yn datblygu hyder ymarferwyr yn y sector ôl-16

Mae Sgiliaith yn darparu rhaglen hyfforddiant staff genedlaethol a rhaglen fentora genedlaethol ar ran y Coleg Cymraeg i'r sector ôl-16 ers mis Gorffennaf 2020. Yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21, darparwyd cefnogaeth i gannoedd o ymarferwyr yn y colegau addysg bellach a darparwyd prentisiaethau ar draws Cymru.

Kate Evans, Tiwtor ac Aseswr Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Coleg Penybont.

Adroddiad Blynyddol 2020-2021 y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (fersiwn hygyrch)

“Mae’r cynllun mentora wedi bod yn brofiad trawsnewidiol i fi. Yn fy swydd bresennol, derbyniais y rôl anffurfiol o bencampwr y Gymraeg, felly dechreuais ar y cynllun mentora i adeiladu fy hyder er mwyn cefnogi fy nghydweithwyr i ddefnyddio Cymraeg gyda’u dysgwyr. Ers dechrau’r cynllun, dw i wedi cael syniadau am sut i gynnwys mwy o Gymraeg yn fy sesiynau; dw i’n siarad Cymraeg gyda dysgwyr sy’n siarad yr iaith a dw i’n teimlo’n angerddol am hybu’r iaith gyda phob dysgwr ac aelod o’r adran. Mae’r mentor yn greadigol, yn garedig ac yn gefnogol dros ben – byddwn i’n awgrymu’r cynllun i bawb fyddai’n hoffi gwella eu darpariaeth.”

Liz Bowes, Darlithydd Gofal Anifeiliaid a Diwydiannau’r Tir, Coleg Sir Gâr.

“Mae’r rhaglen fentora wedi fy helpu i fagu hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg a diwylliant Cymru yn fy sesiynau addysgu. Mae’r mentor wedi bod yn hynod gefnogol ac wedi dangos llawer o strategaethau i mi y gallaf eu defnyddio yn fy sesiynau i hyrwyddo Cymru a’r Gymraeg, er nad ydw i’n siarad Cymraeg. Mae’r strategaethau newydd hyn rydw i wedi’u hymgorffori wedi caniatáu i fy nysgwyr fod yn fwy cyfforddus a hyderus gyda’r Gymraeg ac mae ganddynt well dealltwriaeth o bwysigrwydd defnyddio’r Gymraeg”.

Maes 3: Ymwybyddiaeth Cyflogwyr

Nod y Coleg yw gweithio gydag eraill i sicrhau cynnydd mewn ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr o bwysigrwydd sgiliau dwyieithog a sgiliau yn y Gymraeg.

Astudiaeth achos: Ffocws ar ddiwydiant – adeiladu a’r cymwysterau newydd

Mae cwmnïau adeiladu ISG yng Nghaerdydd a John Weaver yn Hwlfordd wedi bod yn cydweithio â’r Coleg Cymraeg a CITB Cymru, sef bwrdd hyfforddi’r diwydiant adeiladu, i ddatblygu adnoddau newydd sy’n rhoi cipolwg ar y sgiliau adeiladwaith mewn perthynas â’r cymwysterau newydd fydd yn cael eu cyflwyno yn 2023.

Mae’r adnoddau yn cynnwys cyflwyniadau i’r sector adeiladu a’r dulliau amrywiol a ddefnyddir wrth ddatblygu strwythurau newydd a diogelu hen adeiladau.

Meddai Dafydd Williams, Hyfforddai Graddedig gydag ISG:

“Mae cydweithio â’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a CITB Cymru i rannu’r math o brosiectau a wnawn fel cyflogwr yn bwysig i ni. Fel Hyfforddai Graddedig i’r cwmni, rwyf wedi dysgu cryn dipyn o sgiliau newydd ac wedi ehangu fy ngwybodaeth, ac os galla i rannu hynny gyda chynulleidfa newydd a’u helpu yn eu hastudiaethau, gorau oll”

Gweler enghraifft o’r adnoddau fan [hyn](#).

Diolch yn fawr am eich diddordeb yn ngwaith y Coleg

Dolen at [atodiadau’r adroddiad blynyddol](#).